Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil
Welsh Parliament | Research Service

Refferendwm ar ddychwelyd pwerau datganoledig

Y Pwyllgor Deisebau | 1 Tachwedd 2021
Petitions Committee | 1 November 2021

Cyfeirnod: SR21/837-5

Rhif y ddeiseb: P-06-1193

Teitl y ddeiseb: Gofyn i Lywodraeth y DU am ganiatâd i gynnal refferendwm ar ddychwelyd pwerau datganoledig.

Geiriad y ddeiseb:

Nid oes gan y Senedd unrhyw bwerau i alw refferendwm o'r fath i ganfod barn y cyhoedd am sut y caiff pwerau datganoledig eu hamgyffred yng Nghymru. Fodd bynnag, gall ofyn i Lywodraeth y DU am ganiatâd i gynnal refferendwm ar gyfer pobl Cymru.

Mae Senedd Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynt) wedi bod ar waith ers 1999, yn seiliedig ar refferendwm a gynhaliwyd ym 1997. Gwyddom o'r refferendwm annibyniaeth diweddar yn yr Alban fod pleidlais o'r fath yn cael ei hystyried yn un "unwaith mewn cenhedlaeth", ac felly - 24 blynedd yn ddiweddarach - nid yw ond yn deg ac yn iawn i bobl Cymru gael lleisio eu barn unwaith eto.

Mae rhai'n credu y dylai Cymru gael mwy o bwerau ac annibyniaeth lawn, ond mae eraill yn credu y byddai pŵer canolog yn fwy effeithiol - ac yn gost-effeithiol.

Gyda'r pandemig presennol fel enghraifft, ar adeg agor y ddeiseb hon mae Cymru ar ei hôl hi o ran cyfradd brechu, yn ogystal â bod â'r ail gyfradd waethaf o heintiau COVID-19 yn y byd (a adroddwyd yn flaenorol fel y gwaethaf, oherwydd camgymeriad adrodd yng Nghymru).

O gymharu, byddai dull canolog wedi bod o fudd mawr i Gymru, o ran cymorth a gweithdrefn.

1. Cefndir

Crëwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999 yn dilyn refferendwm ym 1997. Cynhaliwyd refferendwm arall yn 2011 gyda 63.5 y cant o'r pleidleiswyr o blaid ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad, fel yr oedd ar y pryd.

Diwygiwyd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 gan Ddeddf Cymru 2017 i ddiogelu Senedd Cymru, Llywodraeth Cymru a'r deddfau a wnânt fel rhan barhaol o drefniadau cyfansoddiadol y DU.

Gwnaeth hefyd ddarparu na ellir diddymu Senedd Cymru na Llywodraeth Cymru heb fod pobl Cymru yn cytuno â hynny trwy bleidlais mewn refferendwm. Deddf gan Lywodraeth y DU fyddai ei hangen i gynnal refferendwm o'r fath.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r briffiau hyn o reidrwydd yn cael eu diweddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.